

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elwy Owen (Llanefydd) sy'n parhau yn Ysbyty Broadgreen a Glyn Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd Mathew Jones (Llanefydd) anffawd yn ystod yr wythnos hefyd. Cyflwynwn hwy oll, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.
- Dymuniadau gorau i Dyfan Jones (Groes) a Hayley Scott ar eu priodas dydd Sadwrn nesaf. Gweddiwn y cânt ddiwrnod cofiadwy, a bendithion lu i'r dyfodol.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd erbyn diwedd y mis, os gwelwch yn dda.

Banc Bwyd

Os oes modd i chi eto gyfrannu unrhyw beth o'r rhestr isod a'i roi yn un o'r bocsys casglu bwyd sydd yn eglwysi'r fro, fe'i gwerthfawrogir yn fawr gan fod y stoc wedi mynd yn isel yn y Banc Bwyd yn Ninbych. Cofiwch, **rhaidd i bopeth fod mewn tun neu baced – dim bwydydd ffres** os gwelwch yn dda, a **'best-before' o leiaf ddau fis ymlaen:**

- | | | |
|-------------|-----------------|----------------------------|
| ✓ Cawl | ✓ Pwdin Reis | ✓ Siwgr |
| ✓ Ffa Pôb | ✓ Pwdin Sbwng | ✓ Reis |
| ✓ Tomatos | ✓ Cwstard | ✓ Pasta |
| ✓ Llysiau | ✓ Sudd Cordials | ✓ Tatws Mash neu Datws Tun |
| ✓ Cig | ✓ Llefrith UHT | ✓ Sawsiau |
| ✓ Pysgod | ✓ Te | ✓ Grawnfwydydd |
| ✓ Ffrwythau | ✓ Coffi | ✓ Bisgedi Snac |

Diolch am bob cefnogaeth.

I ddod

- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org.
- **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA Ebrill 2il – 7fed ac Ebrill 7fed- 12fed. Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.newwordalive.org
- Bydd yr ail gyfarfod i drefnu **Pabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog Ebrill 18fed am 6.00. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Mawrth 2013

Darlleniad y Dydd

Mathew 21:1–11

(BCND tud.24 / BCN: tud.22)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Yng nghanol y tymor wyna dyma ni'n troi eto i feddwl am Iesu, Oen Duw. Y defaid a'r wŷn sy'n dod yn gyntaf yr adeg yma a nhw sy'n cael y flaenoriaeth. A ninnau, fel defaid ac wŷn Duw sy'n cael y flaenoriaeth gan Dduw hefyd. Mae Iesu'n gofalu amdanom ac yn bugeilio drosom. Roedd yno cyn ein geni fel y mae'r ffermwr wedi bod yn gofalu am y ddafad ymhell cyn iddi gael oen. Mae Iesu yno hefyd ar ein genedigaeth ac yn clywed ein hanadl gyntaf! Mae'n gwyllo drosom i'n porthi a bydd yno hefyd ar hyd ein hoes pan fyddwn yn crwydro, yn gwaelu neu'n magu wŷn ein hunain! Mae'n bugeilio ein teuluoedd fel y mae ffermwr yn bugelio'r praid a'i ddyhead mawr yw dwyn ei ddefaid i ddiogelwch ei gorlan lle caiff eu bugeilio am byth.

Yn llyfr y Datguddiad y mae'r geiriau hyn rwy'n eu darllen pob tro y byddaf yn arwain traddodiant: "A bydd yr Oen, yr hwn sydd yng nghanol yr Orsedd yn eu bugeilio hwynt ac yn eu harwain at ffynhonnau dyfroedd bywyd..." (Datguddiad 7: 17)

Mae'r geiriau yn ein hatgoffa fod Iesu yn Oen sydd wedi ei ladd ond ei fod eto'n fyw, a'i fod yn Oen sydd hefyd yn Fugail sydd yn gallu arwain pobl i fywyd tragwyddol fel y mae bugail yn arwain ei ddefaid at ddŵr i'w cadw'n fyw.

Yr hyn sy'n rhyfeddol am y disgrifiad hwn o'r Arglwydd Iesu yw'r mawredd sy'n perthyn iddo ond hefyd ei fod yn ddarlun mor gyfarwydd i ni.

Mae pob bugail da yn rhoi ei fywyd dros y defaid yn y tymor yma o brysurdeb a gofal. Rhoddodd Iesu ei fywyd trosom ni. Rhoddodd ei orau i ni. Wnaeth o ddim arbed ei hun. Ffrwyth llafur y ffermwr ydi'r boddhad o weld llond cae o wŷn iach yn pesgi ar y tir. Gweld ffrwyth i'r holl fuddsoddiad yn y bridio a'r paratoi gofalus. Gweld ymlaen mae'n debyg i'r tymor nesaf a'r tymor ar ôl hynny.

Yn llyfr y proffwyd Eiseia lle mae Duw yn rhoi gwybod i'w bobl am ddiodeffaint Crist – pennod 53 – y mae'n dweud y bydd Crist, wrth ddiodeffaint a marw yn gweld ffrwyth ei lafur – llafur ei ddiodeffaint ar y groes. Dyma'r adnod: 'Pan rydd ei fywyd yn aberth dros bechod, fe wêl ei had, fe estyn ei ddyddiau, ac fe lwydda ewyllys yr Arglwydd yn ei law ef.' (Eiseia 53: 10)

Ar drothwy'r Pasg diolchwn i Iesu ei fod wedi ein gweld ymlaen i'r dyfodol a'i fod wedi ein gweld ni o groes Calafia a'n gwneud ni yn rhan o ffrwyth ei aberth Ef! Rhyfeddwn at y gwirionedd hefyd mai ewyllys Duw yw ein bugeilio ni a'n gwneud yn ddefaid ei borfa!

Croeso i oedfaon y dydd! Braf fydd cael canu mawl i'n Harglwydd a'i ganmol gyda'n gilydd. "Teilwng yw yr Oen"!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Myfyrdodau'r Pasg: "Iesu yng Ngardd Gethsemane"**. Y naill yn Nantglyn a'r llall yng Nghefn Meiriadog, am 7.30.
- Mercher • **Myfyrdodau'r Pasg: "Iesu gerbron y Sanhedrin"**. Y tro hwn yn Groes ac yng Nghefn Berain, eto am 7.30.
- Iau • **Myfyrdodau'r Pasg: "Iesu gerbron Pilat"**. Heno yn Saron ac yn Llansannan, y ddau gyfarfod yma hefyd am 7.30.
- Gwener • **Oedfa Gymun Bore'r Groglith i'r Fro** yn Henllan am 10.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Neuadd Llanfair am 10.00 ac Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Rhag-hysbys Fe fydd yr eglwys yn Llanfair yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid yn ystod oedfa'r bore ar Ebrill 7fed.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Chwirydd yn Saron am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno Rhaglen Dorcas i'r aelodau.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00 ac yn ystod yr oedfa, bydd yr eglwys yn Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Nan Powell Davies yn arwain oedfa deuluol yn Llanefydd am 10.00 ac yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg yn dilyn y gwasanaeth yn Llanefydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Gwener Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghapel Cefn Berain am 7.00 gyda'r Parch. Tom Evans Williams yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd oedfa deuluol yng Nghefn Berain am 10.00. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg am 10.00 ac oedfa arbennig dan ofal yr ieuencid a Nia Williams, Pwllheli am 6.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau